



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Fabanod Sant Joseff
Stryd y Dŵr
Aberafan
Port Talbot
SA12 6LF**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2013

Cyd-destun

Mae Ysgol Fabanod Gatholig Rufeinig Sant Joseff a Gynorthwyr yn Wirfoddol ym Mhort Talbot. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal 'Cymunedau yn Gyntaf' lle daw bron i hanner y disgyblion o un o'r 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn codi, ac mae tua 18% ar hyn o bryd. Mae hyn islaw cyfartaleddau'r awdurdod lleol (25%) a chyfartaleddau cenedlaethol (21%).

Mae 143 o ddisgyblion rhwng tair a saith oed ar y gofrestr, gan gynnwys 52 o blant yn y meithrin, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynychu yn rhan-amser. Mae dwy athrawes ran-amser yn rhannu cyfrifoldeb am addysgu'r dosbarth meithrin a dwy athrawes arall yn rhannu dosbarth Blwyddyn 1/2. Mae athrawon amser llawn yn addysgu'r tri dosbarth arall.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o angen addysgol arbennig. Mae hyn ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw tua 18% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae tua 34% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2007. Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,222 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw £7,410 a'r isafswm yw £2,806. Mae Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff yn safle 50 o'r 68 o ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn;
- mae ansawdd yr addysgu'n gyson dda;
- mae profiadau dysgu ysgogol yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus;
- mae safonau ymddygiad yn dda ar draws yr ysgol; ac
- mae ethos cynnes a gofalgarg.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i wella;
- mae'r ysgol yn dadansoddi data'n dda i lywio'r broses hunanarfarnu;
- mae staff wedi rhoi gwelliannau ar waith yn llwyddiannus mewn meysydd pwysig yng ngwaith yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf; ac
- mae canfyddiadau hunanarfarniad yr ysgol yn gywir ar y cyfan.

Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau ym mhob maes dysgu

A2 Sicrhau her gyson uchel ar gyfer disgyblion mwy abl

A3 Cryfhau rôl llywodraethwyr a staff sydd â chyfrifoldebau rheoli wrth bennu cyfeiriad strategol yr ysgol

A4 Cynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn llawn ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol

A5 Gwella presenoldeb

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sy'n gymedrol ar gyfer eu hoedran ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni deilliannau disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad a gwrando. Maent yn rhannu syniadau'n synhwyrol mewn parau a grwpiau mwy ac yn trefnu eu hunain yn dda yn ystod gweithgareddau chwarae rôl annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mabwysiadu patrymau iaith lafar gwahanol gymeriadau. Er enghraifft, maent yn chwyrnu, "Aye, aye me hearties!" wrth gynnal cyfweliadau gydag ymgeiswyr am swydd fel aelod o griw preifat.

Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau gwrando ar storïau yn cael eu darllen ar goedd gan eu hathro. Yn eu darllen eu hunain, mae disgyblion o bob gallu yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau a'u dealltwriaeth o'r stori yn effeithiol i ddarllen unrhyw eiriau anghyfarwydd y maent yn dod ar eu traws. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen gyda mynegiant da ac yn defnyddio atalnodi'n dda i'w helpu i wneud synnwyr o'r testun. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ymwybodol o'r gwahanol strategaethau darllen y mae angen iddynt eu defnyddio wrth ddarllen storïau neu lyfrau gwybodaeth. Maent yn gwybod, er enghraifft, sut i ddefnyddio tudalen gynnwys a sut i fflicio trwy lyfr er mwyn dod o hyd i ddarn penodol o wybodaeth am destun y maent yn ei astudio.

Mae pob disgybl yn ysgrifennu at ystod dda o ddibenion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llawysgrifen a sillafu ac wrth iddynt ddefnyddio atalnodi. Pan gânt gyfle i ysgrifennu'n rhydd, mae disgyblion hŷn a mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig. Defnyddiant eirfa a delweddau dychmygus i fywiogi eu hysgrifennu. Mewn cerddi am yr haf, er enghraifft, maent yn ysgrifennu llinellau fel, 'Summer smells like the foaming sea'. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y cwricwlwm, wedi'i ddatblygu ddigon.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau meddwl. Maent yn myfyrio'n dda ar eu dysgu, yn rhoi rhesymau da dros eu meddyliau ac yn esbonio'u syniadau yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw medrau dysgu annibynnol disgyblion wedi'u datblygu cystal.

Mae disgyblion yn cychwyn arni'n dda wrth ddysgu Cymraeg yn y meithrin, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adeiladu'n dda ar eu medrau siarad a gwrando wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac yn mwynhau canu caneuon Cymraeg. Mae disgyblion hŷn yn darllen testunau Cymraeg syml yn gywir, gyda dealltwriaeth a mynegiant da.

Mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn 2012, cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5 neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen) mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (dangosydd deilliant y Cyfnod Sylfaen). Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ac ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn gyffredinol, mae merched yn gwneud cynnydd gwell na bechgyn mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. At ei gilydd, mae bechgyn yn gwneud cynnydd gwell na merched mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddeilliant 6 uwch y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad disgyblion mwy abl yn 2012 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg, ond nid yn y 25% gwaelod. Roedd perfformiad disgyblion mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Perfformiodd merched ychydig yn well na bechgyn ym mhob un o'r tri maes dysgu ar y lefel hon.

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r rhai nad ydynt yn gymwys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn ac mae llawer ohonynt yn cyflawni cystal â'u cyfoedion. Mae disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae tua hanner y disgyblion mwy abl yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.

Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod angen bwyta'n iach ac yfed digonedd o hylif er mwyn aros yn heini. Maent yn gwybod bod ymarfer corff yn bwysig i gynnal iechyd da. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn hyderus i ddweud wrth athro os ydynt yn anhapus ac yn gwybod y bydd staff yn dangos cydymdeimlad wrth ddelio ag unrhyw bryderon.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi eu cymell yn dda ac yn mwynhau eu gwersi, er nad ydynt yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol ar gyfer gwella.

Mae safonau ymddygiad yn dda ar draws yr ysgol. Bron yn ddieithriad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd trin ei gilydd yn garedig a dangos parch at ei gilydd. Mae bron pob disgybl yn datblygu medrau cymdeithasol da. Maent yn cydweithio'n dda mewn parau neu grwpiau bach yn y dosbarth ac yn chwarae â'i gilydd yn ddychmygus ac yn gytûn.

Dengys tueddiadau mewn cyfraddau presenoldeb fod yr ysgol wedi bod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Mae nifer sylweddol o rieni yn tynnu eu plant o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor, yn aml gan fod ymrwymadau gwaith yn golygu nad oes ganddynt unrhyw ddewis ynghylch pryd maent yn cymryd eu gwyliau blyneddol. Caiff hyn effaith negyddol ar lefelau presenoldeb cyffredinol. Mae prydlondeb yn dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyflawni eu rôl yn ddifrifol ac yn gydwytbodol. Maent yn deall sut mae eu penderfyniadau'n effeithio ar les pob disgybl. Er enghraifft, mae sefydlu cynllun 'cyfeillion cae chwarae' yn cyfrannu'n werthfawr at hapusrwydd a lles pawb amser egwyl.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n bodloni holl ofynion y cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod cydraddoldeb ar draws grwpiau blwyddyn. Mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion disgyblion o bob gallu ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r gordefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar faint o ysgrifennu annibynnol a wna disgyblion.

Mae ystod eang o ymwelwyr a gwibdeithiau addysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu gweithgareddau allgyrsiol fel clybiau chwaraeon, coginio a chelf. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles.

Mae cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, ond collir cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae datblygu medrau meddwl disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn rheolaidd. Mae 'drilio' Cymraeg bob dydd yn atgyfnerthu medrau dwyieithog disgyblion yn dda. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru trwy destunau fel 'Rhyfeddodau Cymru'.

Mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r pwyllgor eco yn ymgymryd â'i rôl o ddifrif ac yn sicrhau bod disgyblion ac oedolion yn diffodd goleuadau a thapiau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill yn dda trwy ei chysylltiadau gyda Pheriw ac India a'i chefnogaeth i Gymorth Catholig ar gyfer Datblygiad Tramor.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae gwersi'n gyson dda. Mae athrawon a staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r modd y mae plant ifanc yn dysgu. Defnyddiant adnoddau ysgogol i sbarduno chwilfrydedd disgyblion ac maent yn darparu gweithgareddau dychmygus sy'n ennyn eu diddordeb yn frwdfrydig yn eu dysgu.

Mae perthynas gynnes a chadarnhaol iawn rhwng pob aelod o staff a disgyblion. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac mae awyrgylch gweithio prysur ond tawel yn bodoli ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae athrawon yn holi ystod dda o gwestiynau i helpu disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu ac maent yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu medrau meddwl. Mae cynorthwyr addysgu yn defnyddio eu medrau a'u harbenigedd yn effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion.

Mae lefel dda o her i ddisgyblion o bob gallu mewn gweithgareddau ymarferol a thrafodaethau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn mynd ati'n gyson i addasu tasgau ysgrifenedig yn ddigonol ar gyfer pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae gweithdrefnau asesu newydd yn golygu bod yr ysgol yn defnyddio data'n dda i olrhain cynnydd disgyblion a monitro eu perfformiad. Mae'n defnyddio'r wybodaeth a gafwyd i roi cymorth ychwanegol a hyblyg i ddisgyblion pan fydd angen.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, maent yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau ac yn nodi sut gallent wella. Maent yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith ac ystyried sut gallant ei wneud yn well.

Mae adroddiadau i rieni yn rhoi gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant ac maent yn cynnwys targedau ar gyfer gwella. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol trwy amrywiaeth o fentrau sy'n cyfrannu'n dda at eu datblygiad a'u dysgu. Caiff disgyblion gyfleoedd da i wneud ymarfer corff trwy wersi addysg gorfforol a chlybiau allgyrsiol ac maent yn dysgu am bwysigrwydd diet iach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau da ar gyfer monitro absenoldeb a hwyrni, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r swyddog lles addysg ar fentrau newydd i wella presenoldeb. Mae'n gweithio'n ddiflino gyda rhieni i wella presenoldeb.

Mae rheolau dosbarth clir ac mae staff yn defnyddio'r rhain yn gyson i sicrhau bod pob disgybl yn ymddwyn yn briodol. Maent yn darparu llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion trwy amser cylch, yn y dosbarth ac amser chwarae.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn dda iawn, yn unol â'i haddysgu Catholig. Mae'n hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn effeithiol mewn gwarsi, trwy'r 'wythnos ddiwylliannol' flynyddol a thrwy ymweliadau â lleoedd fel yr oriel genedlaethol yng Nghaerdydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Rhoddir cymorth da i ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol ac i ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r cymorth ychwanegol a ddarperir yn y dosbarth ac mewn grwpiau tynnu allan o wersi, yn bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau da ar gyfer cael cymorth ac arweiniad ychwanegol gan asiantaethau allanol pan fydd angen.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl. Rhoddir pwyslais cryf ar garedigrwydd, gofalu am bobl eraill a dangos parch tuag at oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn dathlu cefndiroedd amrywiol disgyblion.

Mae'r adeiladau a gynhelir yn dda yn cynnig amgylchedd diogel ac ysgogol i bawb. Mae arddangosiadau bywiog yn cefnogi ac yn ymestyn dysgu disgyblion yn dda ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ansawdd cyffredinol yr amgylchedd dysgu.

Mae'r defnydd dychmygus a wneir o'r tir bach cyfagos yn gryfder yn y ddarpariaeth. Mae disgyblion yn dringo, yn rhedeg, yn chwarae'n hapus ac yn dysgu'n effeithiol yn y manau diddorol niferus a ddarperir. Mae safon y toiledau yn y prif adeilad yn dda ond mae awyru gwael yn effeithio ar y rhai yn y meithrin.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau yn yr ysgol, gan gynnwys offer TGCh cyfoes, y mae staff yn eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r pennaeth yn gweithio'n galed ac mae'n ymdrechu'n gryf i ddatblygu a gwella'r ysgol. Mae aelodau eraill o'r uwch dîm rheoli, sy'n gymharol newydd i'w rôl, yn rhannu'r ymrwymiad hwn. Mae pob aelod o staff yn ymroi i ddarparu'r addysg orau posibl ar gyfer eu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw staff yn cymryd rhan yn llawn mewn helpu i bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol wedi ymrwymo i'r ysgol. Mae llywodraethwyr unigol yn ymweld er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o'i bywyd a'i gwaith o ddydd i ddydd. Ymunodd llawer o lywodraethwyr â'r corff llywodraethol yn ystod y deunaw mis diwethaf. Megis dechrau datblygu dealltwriaeth lawn o'u rôl fel ffrindiau beirniadol y maent felly. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn dda am berfformiad yr ysgol, ond ni chaiff llywodraethwyr eu cynnwys yn ddigonol mewn ffurfio cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae disgrifiadau swydd ar gyfer pob aelod o staff, ond yn arbennig y rhai sydd â chyfrifoldebau rheoli, yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn adlewyrchu rolau penodol. Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad, ond nid yw targedau personol a phroffesiynol unigol ar gyfer gwella yn gyson glir. Megis dechrau datblygu y mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer staff cymorth.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, fel codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, lleihau effaith amddifadedd cymdeithasol ar gyraeddiad disgyblion a datblygu medrau dwyieithog disgyblion.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod dda o ffynonellau gwybodaeth yn ei phroses hunanarfarnu. Mae'n cynnal dadansoddiad helaeth o'r holl ddata sydd ar gael ar

berfformiad disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r dadansoddiad hwn yn helpu i nodi meysydd perthnasol i'w gwella.

Mae'r ysgol yn gofyn barn yr holl gyfranogion, gan gynnwys staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni ond nid ydynt yn cymryd rhan yn llawn yn y broses hunanarfarnu eto. Serch hynny, mae'r broses hunanarfarnu yn gyffredinol effeithiol o ran nodi targedau ar gyfer gwella i'w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn uchelgeisiol ynglŷn â nifer y gwelliannau y mae'n dymuno'u gwneud. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen eithriadol o fanwl. Fodd bynnag, mae gormod o dargedau i fynd i'r afael â nhw tra'n sicrhau hefyd fod mentrau yr ymgymmerwyd â nhw yn y gorffennol wedi cael eu hymgorffori'n llawn yn arfer yr ysgol. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae cynllunio ar gyfer gwella wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar ddarpariaeth yr ysgol fel ansawdd yr addysgu, datblygu medrau meddwl disgyblion a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Mae partneriaethau gydag ysgolion eraill yn effeithiol mewn meysydd fel datblygu technolegau newydd i gefnogi dysgu disgyblion. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae staff yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr mewn ysgolion eraill hefyd i lunio a safoni portffolios gwaith disgyblion i sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae ystod dda o bartneriaethau defnyddiol a chynhyrchiol sydd o fudd i'r ysgol a'i disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda'r grŵp dysgu teuluol, er enghraifft, yn helpu i wella medrau llythrennedd disgyblion cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol trwy ddefnydd ar y cyd o gynllun sy'n cyflwyno plant i lythrennau a seiniau.

Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am ei gwaith trwy gylchlythyrau rheolaidd, y wefan a negeseuon testun. Mae'r gymdeithas 'Ffrindiau' weithgar yn codi cyllid ychwanegol gwerthfawr ar gyfer yr ysgol, ac mae'n ei wario'n effeithiol ar y cyd â'r cyngor ysgol. Mae hyn wedi gwella agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol fel ystod yr offer sydd ar gael i ddisgyblion yn ystod amser egwyl.

Mae'r bartneriaeth gyda staff arbenigol yn yr awdurdod lleol, fel y gwasanaeth cymorth Cymraeg a'r gwasanaeth cerddoriaeth peripatetig, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac fe gaiff effaith glir ar y safonau y maent yn eu cyflawni yn y meysydd dysgu hyn.

Mae trefniadau pontio gyda'r ysgol bartner iau yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn symud i Flwyddyn 3.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yng nghlwstwr yr awdurdod lleol. Mae cysylltiadau da gyda chlwstwr o ysgolion yr esgobaeth hefyd, er enghraifft wrth rannu syniadau ynglŷn â sut i wario'r arian a ddyrannwyd o'r grant effeithiolrwydd ysgolion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff a'i hadnoddau yn effeithiol ac mae'n defnyddio pob cornel sydd ar gael o'r adeilad i ddarparu manau i oedolion a disgyblion weithio.

Mae digon o athrawon a chynorthwywyr addysgu cymwys i gwmpasu'r holl feysydd dysgu. Cynhelir ansawdd da yr addysgu trwy drefniadau effeithiol ar gyfer trefnu staff llanw yn ystod amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cydweithio'n dda i gynllunio ar gyfer dysgu disgyblion a'i asesu.

Mae athrawon a staff cymorth yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn dda trwy gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae dau aelod o'r staff cymorth, er enghraifft, wedi graddio yn ddiweddar gyda chymwysterau sy'n berthnasol iawn i anghenion yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn adolygu cyllideb yr ysgol yn rheolaidd ac maent yn addasu gwariant i ymateb i newid mewn amgylchiadau. Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid a'i hadnoddau'n effeithlon i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae'r ysgol felly yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn 2012, cyflawnodd pob disgybl y lefel ddisgwylidig (deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen neu'n uwch) mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (dangosydd deilliant y Cyfnod Sylfaen). Gosododd hyn yr ysgol yn y 25% uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg ac ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Perfformiodd bechgyn a merched cystal â'i gilydd yn neilliant 5 y Cyfnod Sylfaen. Nid oedd unrhyw wahaniaeth chwaith ym mherfformiad disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oeddent yn gymwys i'w cael.

Ar ddeilliant 6 uwch y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad disgyblion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion eraill yn yr un teulu ac yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mewn datblygiad mathemategol, roedd perfformiad disgyblion yn neilliant 6 y Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion, ond ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

O'i meincnodi yn erbyn ysgolion y mae ganddynt gyfran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad disgyblion yn neilliant 6 y Cyfnod Sylfaen mewn iaith a datblygiad mathemategol yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg, ond nid yn y 25% isaf.

Roedd perfformiad disgyblion yn neilliant 6 y Cyfnod Sylfaen mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru ac yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob un o'r tri maes dysgu yn neilliant 6 y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid oedd arwyddocâd ystadegol i'r gwahaniaeth yn eu perfformiad, ac roedd y bwch yn llai amlwg na'r bwch rhwng bechgyn a merched yn y teulu o ysgolion ac yng Nghymru.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Cafwyd 22 o ymatebion i'r holiadur i rieni neu ofalwyr.

Mae pob un o'r rhieni'n cytuno:

- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau.

Mae ymatebion i'r cwestiynau uchod yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno:

- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch atynt; a'u
- bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn.

Mae ymatebion i'r cwestiynau uchod yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd, neu'n cydfynd â'r cyfartaledd, ar gyfer ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynffwrddu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod yr addysgu'n dda; a
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.

Mae ymatebion i'r cwestiynau uchod yn llai cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru.

Mae llawer o rieni'n cytuno:

- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw angen unigol;
- eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem;
- eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae ymatebion i'r cwestiynau uchod yn llai cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghymru.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Stephanie Joy James	Arolygydd Cofnodol
Elizabeth Non Neave	Arolygydd Tîm
Rhiannon Mary Boardman	Arolygydd Lleyg
Mary Elspeth Dyas	Arolygydd Cymheiriaid
Julie Beaumont Rees	Enwebai'r Ysgol

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.